



ETHOS
S
O
H
I
E

Undeb Bedyddwyr Cymru

Hyfforddiant Cenhadol
mewn partneriaeth a **FORGE**



Cyflwyniad

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru mewn partneriaeth â Forge, yn lansio rhaglen hyfforddiant cenhadol dwy flynedd ar gyfer eglwysi ac arweinwyr sy'n synhwyro'r angen i ddeall yr amserau ac i arfogi'n well ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd cenhadol sydd o'n blaenau ni yma yng Nghymru.

Rydym yn falch mai Cameron Roxburgh fydd yn ein tywys ni trwy'r rhaglen hyfforddiant hon a elwir 'Ethos'.



“Ethos yn wir yw'r ffordd orau rwyn gwybod amdano, i gynorthwyo eraill i glywed y stori o'r newydd ac i gael mynediad i'r llawenydd o gymryd rhan mewn eglwys leol sy'n adnabod natur proffwydol o fod yn blant i Dduw – halen a golau. Nod y siwrnai 2 flynedd hon yw cynorthwyo pobl i glywed hanes rhyfeddol efengyl

Crist a'i Deyrnas. Yn ystod y 6 modiwl, pob un yn para ryw 3 mis, anogir arweinwyr ac eglwysi i ail-ddarganfod natur ryfeddol ein Duw Cenhadol sy'n ein gwahodd ni ac yn ein hannog ni i gymryd rhan yn Ei genhadaeth. Byddwn hefyd yn archwilio goblygiadau llai ffafriol all hyn eu cael ar yr eglwys. Sut mae gweld trawsnewid ym mywydau pobl? Sut mae ymgysylltu â'n cymdogion yn y realiti ôl Gristnogol sydd ohoni? Sut y dylid strwythuro'r eglwys er mwyn iddi drefnu ar gyfer cenhadaeth?

Mae ychydig o waith ynghlwm wrth bob modiwl. Awgrymir darllen ac mae ymarferion i'w gwneud er mwyn sicrhau nad gwrando yw'r unig ffordd o ddysgu, ond yn hytrach yn ddull lle mae yna adfyfrio mwy gweithredol yn digwydd. Rhaid i'r arbrofion y bydd pob arweinydd neu eglwys yn ymgymryd â hwy, fod yn gyd-destunol, ac nid yw'n fwriad iddo fod yn rhywbeth ychwanegol oherwydd mae llawer o arweinwyr eisoes â bywydau prysur, ond yn hytrach yn fodd o saernïo'r gwaith y mae'r eglwys eisoes yn ei wneud.

Gweddïaf ar Dduw i roi proc i chi ymwneud â hyn – heb amheuaeth mae'n golygu gwaith a bydd newid yn digwydd, ond bydd y llawenydd a ddaw yn ei sgil yn llawer iawn mwy na'r rhwystrau ar hyd y ffordd. Estynnaf wahoddiad i chi ystyried ymuno â nifer ohonom wrth i ni archwilio sut fydd ein heglwysi'n edrych wrth iddynt gael eu saernïo i fod yn bobl genhadol sydd am droedio gyda Duw mewn cenhadaeth.”

Ymrwymiadau

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n ymgymryd â hyfforddiant Ethos yn gwybod am yr ymrwymiadau, a'r addewid y byddant yn ei dderbyn gan y rheini fydd yn arwain.

Addewidion (i eglwysi)

- I gynhyrchu a darparu deunyddiau/cwricwlwm sy'n meithrin ymgysylltu
- I fentora eglwysi ar hyd y siwrnai genhadol
- I ddod o hyd i rythm a chyflymdra sy'n cydnabod cyd-destun unigryw pob eglwys ond yn annog symudiad tuag at ymuno gyda Duw ar genhadaeth.

Ymrwymiadau (gan eglwysi)

- I gymryd rhan trwy fynychu ac ymgysylltu â'r deunyddiau, ymarferion a darllen.
- Ymrwymiad gan y tîm arwain i ymgymryd â'r arbrofion ac ymarferion
- I gyfrannu fel rhan o garfan i fywyd eglwysi/arweinwyr eraill
- I fynychu'r sesiynau misol cyhyd ag y bydd Ethos yn parhau.

Amserlen

Mae rhythm rhaglen Ethos yn bwysig. Ein nod yw nid creu mwy o waith, ond yn hytrach i saernio'r gwaith y mae pob eglwys yn rhan ohoni. Mae 6 modiwl yn rhan o Ethos wedi'u trefnu dros gyfnod o 2 flynedd ac yn cydnabod patrwm arferol calendr yr eglwys.

Bydd pob modiwl yn para am 3 mis ac iddynt rhythm misol:

Mis 1: **Encil** – dysgu a thrafodaeth wyneb yn wyneb

Mis 2: **Ailymgynnull** – trwy Zoom am sesiwn dilynol

Mis 3: **Adolygiad** – clystyrau rhanbarthol er mwyn rhannu a mentora

Canlyniadau Cyffredinol

Mae yna dri chanlyniad cyffredinol i'r Rhaglen Ethos.

1. Dealltwriaeth Genhadol o Dduw, ynghyd â dehongliad cenhadol o'r Ysgrythur.
2. Dealltwriaeth ac arfer oherwydd bod Duw yn Dduw cenhadol, ein bod ni fel eglwys yn bobl genhadol. Mae angen i bob eglwys ddeall hyn fel rhan o'u natur, cymeriad a galwad a dod yn genhadon sy'n ymuno â Duw ar genhadaeth.
3. Wrth i bob eglwys ymuno â Duw ar genhadaeth, fe fydd yna arwyddion o fywyd newydd yn dechrau datblygu. Bydd hyn yn cynnwys cynnydd yn nifer y disgyblion, cymunedau cenhadol, dechreuadau newydd o fywyd y Deyrnas a chynulleidfaoedd newydd yn canolbwyntio ar eu cyd-destun.



S
O
H
T
H
E

Costau

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi ymrwymo i genhadaeth gan gytuno i noddi'r bartneriaeth hon gyda Cam Roxburgh a Forge. Ein gobaith yw y bydd unrhyw eglwys neu dîm arwain sy'n dymuno ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn medru gwneud ac ni ddylai cost fod yn ffactor. Felly rydym yn cynnig graddfa o gostau hyfforddiant yr ydym yn gobeithio fydd eglwysi yn ei gweld yn fforddiadwy.

Eglwysi bychain (0-20 aelod)	£250 y flwyddyn
Eglwysi canolig (21-50 aelod)	£350 y flwyddyn
Eglwysi mwy (51-100 aelod)	£550 y flwyddyn
(100+ aelod)	£650 y flwyddyn

Cost yr hyfforddiant 'fesul eglwys' ac yn cynnwys pa bynnag nifer o'r eglwys honno (neu ofalaeth) sy'n medru ymrwymo i'r rhaglen hyfforddi. Rydym yn mynd ati'n fwriadol i annog grwpiau neu dimau o eglwysi i fynychu (beth bynnag eu maint) er mwyn i fudd yr hyfforddiant gael ei rannu a'i roi ar waith oddi fewn i'r eglwys ehangach.

Rydym yn cydnabod mai nifer fechan fydd yn medru mynychu o rai o'n heglwysi. Fodd bynnag, nid ydym am i unrhyw un deimlo na allant gymryd rhan yn yr hyfforddiant cenhadol ac mae'n bosib y gellir cysylltu chi gydag eraill sydd mewn cyd-destun tebyg. Yn yr un modd, os yw cost yn broblem i chi, cysylltwch â ni os gweler yn dda.

Noder: -

- Rhaglen 2 flynedd yw Ethos.
- Nid yw'r uchod yn cynnwys cost yr encil*.
- Mae UBC yn rhoi cymhorthdal er mwyn cynorthwyo i dalu am yr hyfforddiant.

*Encil.

Mae yna fudd o dreulio amser a dysgu wrth ein gilydd wyneb yn wyneb ac mae'n anodd ail-greu'r ymdeimlad hwnnw o gymuned ar lein.

Yn yr amgylchiadau presennol mae'n anodd gwneud trefniadau cadarn ar gyfer yr encil cyntaf ond rydym yn edrych ar y posibilïadau canlynol.

- Nos Wener / Sadwrn – er mwyn cynnwys rhai sy'n gweithio.
- Pellteroedd teithio rhesymol i bawb.
- Cydbwysedd rhwng cost a chysur.

Cofrestru ar Ethos

Os hoffech chi gofrestru ar Ethos allwch chi wneud ar lein neu trwy lanw'r ffurflen gofrestru a atodir ac anfon ar ebost at simeon@ubc.cymru

Modiwl 1 – Arweinyddiaeth Genhadol

Fe ddechreuwn gyda modiwl am arweinyddiaeth. Os nad yw'r arweinydd yn modelu bywyd o ddilyn Crist yn y gymdogaeth a'r gymuned, yna bydd yn anodd tu hwnt i roi hwb i DNA'r eglwys tuag at ymuno â Duw ar genhadaeth.

Mae Arweinyddiaeth Genhadol yn gwahaniaethu o rai o'r tueddiadau presennol mewn arweinyddiaeth eglwys. Er bod llawer i'w ddysgu wrth rai o'r mudiadau arweinyddiaeth eraill, mae arweinyddiaeth genhadol yn cyfuno'r pwysigrwydd o fynd ar siwrnai gyda Christ ar genhadaeth yn y byd, gyda'r pwysigrwydd o ymdebygu i Grist ar y siwrnai honno. Mae angen y ddau er mwyn medru arwain yn dda.

Mae nifer o eglwysi yn galw ar Weinidog i weithio iddynt. Hoffem ganolbwyntio ar yr hyn y credwn yw swyddogaeth arweinydd eglwys neu Weinidog, a'r modd mae'n mynd ati i wneud y gwaith. Mae disgrifiad swydd ar gyfer arweinydd cenhadol yn edrych yn wahanol iawn i ddisgrifiadau ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi heddiw. Mae'r realiti Cristionogol sydd wedi wynebu'r eglwys ers cymaint o amser yn newid. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni edrych o'r newydd ar y ffordd yr ydym yn arwain ac i wneud addasiadau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i bob arweinydd graffu'n ofalus ar faterion yn ymwneud â hunaniaeth, cymeriad a galwad, yn ogystal ag edrych ar y modd y maent yn arwain er mwyn peidio â "thafu cysgod" a gadael i hynny effeithio ar fywyd yr eglwys. Bydd pob arweinydd hefyd yn sylweddoli dylanwad pellgyrhaeddol y gall tîm gweddi ei gael ar y ffordd y maent yn arwain.

Mae gan arweinydd cenhadol set unigryw o alluoedd. Bydd y modiwl hwn yn edrych ar sut y mae'n rhaid mynd ati i arwain yn wahanol gyda phobl genhadol.



S
O
H
I
E

Modiwl 2 – Diwinyddiaeth Genhadol ac Eglwyseg

Mae dod yn eglwys genhadol yn cychwyn mewn un man bod Duw yn Dduw cenhadol. Yn y modiwl hwn byddwn yn canolbwyntio ar sut i ddeall Duw a'i Genhadaeth. Mae angen i ni weld a gwerthfawrogi o'r newydd natur Drinidodaidd Duw a sut mae hynny'n chwarae rôl sylweddol yn Ei genhadaeth. Rhaid i ni hefyd adennill pwysigrwydd ein Cristoleg, gan gredu bod y Tad yn edrych fel y Mab yn gymaint ag y mae'r Mab yn fynegiant o natur Duw yn y cnawd. Mae'n bwysig bod gennym ni fframwaith cenhadol, a'n bod yn meddu ar wedd newydd o Efengyl gyfannol.

Os yw Duw yn Dduw cenhadol, yna mae'n rhaid i ni ddod yn bobl genhadol. Mae ein hunaniaeth ynddo Ef, yn bersonol ac yn gorfforaethol, a chawn ein galw i ymuno â Duw sydd ar waith yn y byd. Trwy ddiffinio eglwys genhadol yn y modd hwn, (Gweledigaeth ddiwinyddol adnewyddedig o'r eglwys...) rydym yn cychwyn deall os ydym am ddod yn genhadol, mae'r eglwys yn tystio i natur Duw.

Tri pheth sy'n dal ein sylw yn 1 Pedr 2. Rydym yn bobl Ddewisedig – sy'n golygu bod ein gwreiddiau a'n hunaniaeth bellach mewn Tad newydd a theulu newydd. Mae ein hunaniaeth ynddo Ef. Rydym yn Offeiriadaeth Frenhinol, Cenedl Sanctaidd – sy'n golygu ein bod yn dod yn Sanctaidd gan fod ein Tad yn Sanctaidd ac yn efelychu Crist yn ein bywydau a ddysgodd i ni sut i fyw yn y ffordd hon. Rydym yn Bobl sy'n Perthyn i Dduw – sy'n golygu ein bod wedi ymuno â'r

'busnes teuluol' ac wedi gwreiddio ein galwad mewn cenhadaeth.

Yn y modiwl hwn byddwn yn edrych ac natur a gweithredoedd cenhadol Duw, a sut y mae'n rhaid i'r eglwys weld ei hunan fel pobl genhadol.

Modiwl 3 – Dirnadaeth a Newid

Os mai'r ffordd orau i weld Duw yw trwy lens/lygaid newydd ("missio dei") a thrwy ein dirnadaeth gweld lle y mae Ef wrth ei waith ac yna symud er mwyn ymuno gydag Ef ar genhadaeth, yna mae'n rhaid i ni wneud ychydig o waith ar 'ddirnad Duw ar waith yn ein cymdogaeth," a "chynorthwyo ein heglwysi i newid o gynhالياeth i genhadaeth."

Mae'r broses o ddirnad Duw ar waith yn broses bwysig wrth ddod yn eglwys genhadol. Mae llawer o bobl, pan ofynnir iddynt y cwestiwn "ble ydych chi wedi gweld Duw ar waith yn eich cymdogaeth," heb unrhyw syniad sut mae ateb. Mae hyn o ganlyniad yn ei gwneud yn anodd iawn cynnig tyst i'r realaeth o Grist atgyfodedig. Mae'r broblem, fodd bynnag, yn gorwedd nid gyda'r bobl ond yn hytrach gyda'n proses o greu disgyblion. Byddai rhai yn dweud "bod gennym y cynllun perffaith yn ei le ar gyfer y canlyniadau yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd." Felly, rhaid i ni addysgu ein pobl i ddirnad presenoldeb Duw ac i dynnu sylw at lle y gwelwn arwyddion o deyrnas Duw.

Ond sut mae cyrraedd yno? Mae sawl model er mwyn creu newid sydd o gymorth. Er na fydd ein pwyslais ar fodolau seciwlar yn unig, mae yna rai na ddylwn eu diystyru. Fodd bynnag, ni ddylid aros yn y fan honno ond yn hytrach ddysgu am yr hyn y mae'n olygu i addysgu ein pobl i ddilyn arweiniad yr Ysbryd wrth lldo ein gwahodd ni i ymuno gydag Ef mewn cenhadaeth.

Felly mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar y broses o ddirnad Duw ar waith a phenderfynu pa fodolau fydd o gymorth i arwain ein pobl trwy'r broses hon o newid.

Modiwl 4 – Strwythurau Cenhadol: Lansio Grwpiau Cenhadaeth

Mae'r modd y mae'r eglwys wedi'i strwythuro o bwys mawr er mwyn dod yn genhadol. Dyma sydd gan Craig van Gelder i'w ddweud, "mae'r eglwys yn, mae'r eglwys yn gwneud, mae'r eglwys wedi'i threfnu (strwythuro) o amgylch yr hyn y mae'r eglwys yn ei wneud." Er mwyn i bobl fod yn genhadol, rhaid iddynt ei strwythuro'n grwpiau llai wedi'u trefnu o amgylch cenhadaeth. Rydym yn bobl sydd wedi ein hanfon i'r lefydd lle rydym yn byw a gweithio.

Mae nifer o eglwysi wedi llithro i wneud y Sul "yn ganolbwynt i bob peth". Mae'n hanfodol ein bod yn dod ynghyd fel pobl i Dduw mewn cenhadaeth, ond ni ddylai hyn byth fod y targed. Ond yn hytrach ymateb ydyw. Felly, rhaid i ni ddysgu rhoi strwythur i'n hunain, ac arwain yn y strwythurau hynny, mewn ffyrdd sy'n ymbweru lle mae pobl Dduw yn ymuno gydag Ef ar waith yn eu cymdogaeth ac yna'n dod ynghyd ar y Sul i ddathlu lle y maent wedi ei weld Ef ar waith.

Haws dweud na gwneud wrth gwrs. O bosib mai dyma'r modiwl anoddaf a bydd angen llawer iawn o amynedd wrth i ni symud yn ein blaenau. Nid ras mohoni. Mae wedi cymryd cenedlaethau i'r eglwys gyrraedd lle y mae, ac mae angen mwy o amser i Ysbryd Duw gywiro pethau.

Modiwl 5 - Saernïo Pobl Dduw

Un o'r trafodaethau a geir mewn eglwysi heddiw yw ynghylch "gwneud disgyblion." Nid yw hyn yn newydd wrth gwrs ac mae pob cenedlaeth yn wynebu'r un broblem – sut mae cynorthwyo'r eglwys i ffurfio yn nelwedd Crist a'i ddilynwyr ymysg cenedlaeth benodol. Mae saernïo unigolion yn ogystal â chymuned yn hanfodol er mwyn ymuno â Duw ar genhadaeth. Mae mudiad yr eglwys genhadol yn dibynnu arno. Nid symudiad allanol yw genhadaeth yn unig, ond yn hytrach yn realiti y byddwn i gyd yn tystio iddo am yr hyn y credwn am Dduw yn ôl y ffordd yr ydym yn byw. Mae'n hanfodol ein bod yn cynorthwyo dilynwyr yn fwy ac yn fwy i efelychu'r un y maent yn ei ddilyn wrth iddo Ef efelychu'r Tad.

Mae hyn yn cychwyn gydag iachawdwriaeth ac i'w weld trwy dröedigaeth. Mae'n cynnwys materion megis hunaniaeth, cymeriad a galwad. Mae'n gofyn am y rhyddid i'r Ysbryd weithio ynom, ac yn galw am ymdrech gennym ni ynghyd â'r Ysbryd, wrth i ni geisio bod yn debycach iddo ef trwy "hyfforddiant ac nid difaterwch" (Dallas Willard). Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae llawer wedi'i wneud ar y mater o werth defodau – yn bersonol ac yn gorfforaethol. Yn y modiwl hwn edrychwn ar y broses o drawsnewid a sut allwn gynorthwyo ein pobl i fod yn debycach i Grist ym mhob peth.



SOH
THE
E

Modiwl 6 – Bywyd yn y Gymdogaeth

Dyma ddod at y modiwl olaf. Rydym wedi cadw hwn tan y diwedd yn fwriadol. Mewn rhai ffyrdd mae'n gyfuniad o bob peth blaenorol, ac mewn ffyrdd eraill dyma'r hyn yr ydym yn diffygio iddo gyflymaf. Ond os nad ydym wedi amgyffred Modiwl 1-5, daw Modiwl 6 yn ymarfer mewn "sut" heb y dyfnder "pam." Bwriad y modiwl hwn yw cynorthwyo'r eglwys leol i "ennill ffafr" y gymdogaeth ac i gynorthwyo pob un o'i phobl i ddysgu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gymydog da.

Ym mharabl y Samariad Trugarog, mae'r Pharisead yn gofyn y cwestiwn anghywir. Nid "pwy yw fy nghymydog?" yw'r cwestiwn, ond yn hytrach, "a wyf i yn gymydog?" Bydd y modiwl hwn yn edrych ar galon Crist tuag at bobl golledig, ar ddatblygiad yr eglwys yn ymgysylltu yn y gymdogaeth, y ddiwinyddiaeth o le a ffurfio pobl yn gymdogion da er budd y deyrnas.

Ym 1993, disgrifiwyd yr eglwys gan Alan Roxburgh fel sugnwr llwch yn amsugno credinwyr – allan o'u cymdogaeth, a mewn i'r sefydliad. Er gwaetha'r ffaith bod nifer o fynychwyr eglwys wedi'u tramgwyddo, mae'r data yn cadarnhau ei gyfatebiad. Mae astudiaethau'n dangos, ar ôl 5 mlynedd, nad oes gan gredinwyr newydd hyd yn oed unrhyw berthnasoedd o arwyddocad gydag anghredinwyr. Os newch chi gyfuno hyn gyda'r canfyddiad mewn diwylliant ôl-fodern, ôl-Gristnogol, nid oes unrhyw ddi-ddordeb gan ein cymdogion mewn 'mynychu eglwys', mae'r angen am ddealltwriaeth ac arferion adnewyddedig ar gyfer tystio yn y

cymunedau y mae Duw yn ein gosod ni ynddynt, nid yn unig yn hanfodol ond yn angenrheidiol – os ydym ni i ddiwallu'r hyn y cawsom eisoes ein galw i wneud a'n gwneud yn bobl Dduw. Mae arbrofion a mewnwediadau ar draws y byd yn awgrymu bod y sifft paradeim hwn yn cychwyn gyda dysgu unwaith eto sut i fod yn gymdogion da, sut i arddel yr ail orchymyn pwysicaf a sut, wrth wneud hynny i dystio gyda'n gilydd, i'r realiti rhyfeddol bod Crist yn teyrnasu, mae ei Deyrnas Ef wedi dod a chawn gyfle i fod yn rhan ohoni!

Yn y modiwl hwn "Anfon i Gymydog", byddwn yn archwilio'r ddiwinyddiaeth sy'n sail i'r ddealltwriaeth hon o alwad yn ogystal â'r astudiaethau cymdeithasegol a datblygu cymunedol sy'n ei gefnogi. Rhoddir ystyriaeth i sut mae ein cyd-destun a'n diwylliant yn dir ffrwythlon ar gyfer y ddealltwriaeth adnewyddedig hon ac yna adnabod sefyllfaoedd ac arferion sy'n ein galluogi ni i fynegi ac ymgysylltu fel y rhai a anfonwyd gan Dduw yn ein cymunedau er mwyn i fywydau a chymunedau gael eu trawsnewid gan rym a gwaith yr Ysbryd yn y byd. Y cwestiwn sydd wrth wraidd y modiwl hwn yw 'sut y mae'n edrych' i fod yn bobl i Dduw yn, gyda, ymysg, i a weithiau mewn cyferbyniad i'n cymdogion yn ein cymdogaeth heddiw a sut mae byw'r bywyd hwnnw.

In this "Sent to Neighbour" module, we will explore the theology that undergirds this understanding of our calling as well as the sociological and community development studies that support it. We will consider how our context and culture is fertile ground for this renewed understanding and then identify postures and practices that enable us to express and engage in being God's sent ones in our neighbourhoods such that lives and communities are transformed by the power and work of the Spirit in the world. The underlying question for this module is 'what does it look like' to be the people of God in, with, amongst, for and sometimes in contrast to our neighbours in our neighbourhoods today and how we are living this out.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi gwestiynau am yr hyfforddiant Ethos, yna cysylltwch ag un o'r canlynol.

Parch Simeon Baker
Cyfarwyddwr Cenhadaeth

simeon@ubc.cymru

Ffôn: 07837404675

Parch Marc Owen
Cydllynydd Gweinidogaeth

revmarcowed@gmail.com

Ffôn: 07872824166

Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Llwyfan,
Heol y Coleg, Caerfyrddin. SA31 3EQ

Dyddiadau: Modiwlau - Blwyddyn 1

Modiwl 1

7 yh	17 Medi	Zoom
	16-17 Hydreg	Encil * * Dibynnu ar Covid-19
7 yh	19 Tachwedd	Adolygiad

Modiwl 2

	22-23 Ionawr	Encil
7 yh	25 Chwefror	Ailymgynnull
7 yh	18 th Mawrth	Adolygiad

Modiwl 3

	23-24 Ebrill	Enil
7 yh	20 Mai	Ailymgynnull
7 yh	17 Mehefin	Adolygiad



ETHOS

Cofrestru ar Ethos

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Ebost: _____

Ffôn: _____

Enw'r Eglwys: _____

Cymanfa: _____

Dewis Iaith: Cymraeg / Saesneg

Rhowch enwau'r rheini fydd yn mynychu'r hyfforddiant Ethos gyda chi. Os nad ydych yn medru rhoi'r enwau hynny ar hyn o bryd yna rhowch syniad o faint chi'n meddwl fydd o bosib am ymuno gyda chi.

Taliad:

Ticiwch y swm sy'n daladwy ar gyfer blwyddyn 1 yr hyfforddiant Ethos.

Eglwysi bychain (0-20 aelod) £250 y flwyddyn

Eglwysi canolig (21-50 aelod) £350 y flwyddyn

Eglwysi mwy (51-100 aelod) £550 y flwyddyn
(100+ aelod) £650 y flwyddyn

Disgwylir taliadau erbyn 1af Medi 2020 trwy siec neu BACS.

Enw'r Banc: Unity Trust Bank
Enw'r Cyfrif: Baptist Union of Wales General Fund
Cod Didoli: 60-83-01
Rhif y Cyfrif: 20367781
Cyfeirnod: "Forge / enw'r eglwys"

Sieciau'n daladwy i: Undeb Bedyddwyr Cymru.

Os hoffech drafod rhagor am hyn cysyllter â naill ai Simeon neu Marc.

Dylid llanw a dychwelyd y ffurflen hon erbyn

1^{af} Awst 2020 at simeon@ubc.cymru